

EICH CANLLAW I HPMA CYMRU

hpma Cymru

GYDA CHI, I CHI

*Gwella Iechyd Drwy Bobl*

# PECYN AELODAETH



# CYNNWYS

## EICH CANLLAW I HPMA CYMRU


03 CYFLWYNIAD

04 CYNLLUN GALLUOGI HPMA CYMRU

05 GWERTH HPMA CYMRU I'N HAELODAU

06 PWYLLGOR HPMA CYMRU

13 SUT I GYMRYD RHAN GYDA HPMA CYMRU


HPMACymru

GYDA CHI, I CHI

*Gwella Iechyd Drwy Bobl*

www.hpma.org.uk/branches/cymru

# CYFLWYNIAD



Mae Cangen Cymru Cymdeithas Rheoli Pobl Gofal Iechyd (HPMA) yn cydnabod y rôl bwysig y gall ei chwarae wrth gefnogi ein haelodau i adeiladu rhwydweithiau cymorth proffesiynol a phersonol, hyrwyddo dysgu, amlygu syniadau newydd i gydweithwyr a gwahanol ffyrdd o weithio a rhoi'r cyfle a'r amser i fyfyrio ar arfer – meithrin gallu ac effaith ein rheolaeth pobl yng Nghymru a dangos integreiddiad ein  gwerthoedd sefydliadol yn y gwaith a wnawn.

## HPMA CYMRU

### Greu cyfleoedd i ddatblygu pobl a rhwydweithiau drwy rannu a dysgu.

Mae HPMA Cymru yn parhau i ddarparu cyfleoedd datblygu i gydweithwyr ac rydym yn cynllunio ar hyn o bryd weithdai a digwyddiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rydym hefyd yn awyddus i gadw ein haelodau ar flaen y gad o ran y cymunedau Adnoddau Dynol, Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Mae'n bwysig eich bod yn cael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf ar draws Cymru a thu hwnt. Gyda hyn mewn golwg, bellach, mae gennym nifer o ffyrdd y gallwch ryngweithio â ni drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

HPMACymru

# CYNLLUN GALLUOGI HPMA CYMRU





Mae'r HPMA wedi bod yn gwneud gwaith helaeth yn ymwneud â sbarduno datblygiad y Strategaeth Genedlaethol, gan sicrhau datblygiad a chefnogaeth barhaus ar gyfer y cymunedau Adnoddau Dynol, Gweithlu a Datblygu Sefydliadol mewn gofal iechyd. Mae'r HPMA Cenedlaethol wedi adnabod pump 'Sgwad' fel prif ffocws y Strategaeth.

Mae'r rhain yn cynnwys:

Sgwad Un: Datblygu
Sgwad Dau: Ymgysylltu
Sgwad Tri: Gofalu
Sgwad Pedwar: Rhannu
Sgwad Pump: Rheoli Talent.

Ar hyn o bryd, mae Cangen HPMA Cymru yn ymgymryd â'r gwaith o gwmpasu ein cynllun galluogi i sicrhau ein bod yn integreiddio'r gwaith a wnawn yn lleol i'r cyfraniad o lunio'r cyfeiriad strategol nid yn unig yng Nghymru, ond ar draws proffesiwn rheoli pobl ehangach y DU.

# GWERTH HPMA CYMRU I'N HAELODAU



Mae Cangen HPMA Cymru yn darparu amlygiad amhrisiadwy i adnoddau proffidiol, defnyddiau a chyfleoedd rhwydweithio i'n haelodau ar draws y gymuned Adnoddau Dynol, Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ehangach yn y sector gofal iechyd yng Nghymru.
Yr hyn y gall HPMA Cymru ei gynnig i'n haelodau:

- Mynediad i rwydwaith proffesiynol
- Mynediad i addysg a dysgu wedi'u teilwra
- Y cyfle i gymryd rhan mewn digwy ddiadau a chynadleddau lleol a chenedlaethol
- Ymateb i anghenion ein cydweithwyr Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ledled Cymru
- Cynnig y cyfle i aelodau gyfrannu at gyfeiriad a pholisi cenedlaethol strategol WOD
- Trosolwg a dealltwriaeth o gyfeiriad strategol a gweledigaeth y cymunedau Adnoddau Dynol, Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ehangach yn y sector gofal iechyd, nid yn unig yng Nghymru
- Cyfleoedd DPP
- Mynediad at siaradwyr a thrafodaethau ys gogol, ysbrydoledig, diddorol a charismataidd
- Dod i gysylltiad â phynciau cyfoes sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein bywydau bob dydd, ein bywydau gwaith/effeithio ar y gwaith a wnawn.

# PWYLLGOR HPMA CYMRU



Gareth Hardacre
Is-lywydd HPMA Cymru (Cadeirydd); Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl, Datblygu Sefydliadol a Chyflogaeth, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)

Mae Gareth yn Gadeirydd presennol HPMA Cymru, ar ôl bod yn Is-gadeirydd ac yn aelod o'r Pwyllgor wedi iddo ymuno ag HPMA yn 2016. Ar hyn o bryd, mae'n Gyfarwyddwr Pobl, Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth yn PCGC ac mae ganddo angerdd gwirioneddol dros ddatblygu gweithwyr Pobl a Datblygu Sefydliadol proffesiynol o bob lefel mewn sefydliadau.

Mae'n weithiwr Pobl a Datblygu Sefydliadol proffesiynol a chymwys ym mhob maes o'r swyddogaeth Adnoddau Dynol a Phobl ac mae wedi cynllunio rhaglenni datblygu ar gyfer graddedigion, prentisiaid a rhai dan hyfforddiant i roi cyfleoedd i bobl ar bob lefel i dyfu'n bersonol.

Mae'n rheolwr pobl profiadol sydd wedi arfer gweithio mewn amgylcheddau masnachol a sector cyhoeddus cymhleth, dan bwysau mawr.

Mae Gareth wedi gweithio yn y sectorau Iechyd, Llywodraeth Leol, y Gwasanaeth Sifil a Phreifat — ac mae wedi gwasanaethu am 8 mlynedd yn Llywodraethwr Prifysgol yn y Sector Addysg Uwch. Mae Gareth wedi llunio, dyfeisio a rheoli rhaglenni newid mawr, lle cafodd strwythurau, rolau, cyfrifoldebau a diwylliannau eu newid yn llwyddiannus i gyflawni canlyniadau rhagorol.

E-bost: gareth.hardacre2@wales.nhs.uk
Trydar: @g_hardacre



Hywel Daniel
Is-gadeirydd HPMA Cymru; Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Ar hyn o bryd mae Hywel Daniel yn Gyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Pobl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM), swydd y mae wedi'i dal ers mis Mawrth 2020, ar ôl ymuno â'r Bwrdd Iechyd fel Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ym mis Medi 2018.

Mae gan Hywel dros 20 mlynedd o brofiad ym maes Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, ar ôl dechrau ei yrfa mewn llywodraeth leol, cyn symud i ofal iechyd. Treuliodd Hywel nifer o flynyddoedd yn gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan arwain at ei rôl fel Pennaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ar gyfer Llawdriniaeth, cyn ymuno ag Iechyd Cyhoeddus Cymru fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol Pobl – lle treuliodd amser byr hefyd fel Cyfarwyddwr Dros Dro Pobl a Datblygu Sefydliadol.

Mae Hywel yn Gymrawd Siartredig o'r CIPD, ac mae ganddo ddiddordeb brwd mewn datblygu'r proffesiwn, adnoddau dynol a Datblygu Sefydliadol gwerth ychwanegol, ymchwil ac arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

E-bost: hywel.daniel@wales.nhs.uk
Trydar: @HywelDaniel



Sarah Morley
Dirprwy Lywydd Cenedlaethol HPMA; Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Dechreuodd Sarah ei gyrfa yn GIG Cymru yn 2000 yn Y mddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent fel Hyfforddwr TG yn dilyn cyfnod fel Ymgynghorydd a Hyfforddwr TG hunangyflogedig. Yna bu'n gweithio mewn nifer o rolau ym maes Addysg a Datblygu a oedd yn cefnogi ei datblygiad gyrfa, tan 2006 pan ddaeth yn Bennaeth Gwasanaethau Busnes Adnoddau Dynol ac yna'n Gyfarwyddwr Cynorthwyol, yn goruchwylio'r gwaith o weithredu ESR a'r Agenda ar gyfer Newid ymhlith prosiectau eraill.

Yn 2010 roedd Sarah yn ddigon ffodus i gael y cyfle i ymuno â'r tîm ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol ac yna yn 2014 drwy ei phenodi'n Gyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Ar hyn o bryd, Sarah yw Cyfarwyddwr arweiniol y Gweithlu ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Datblygiad cenedlaethol Ffrwd Waith y Proffesiwn Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu.

E-bost: sarah.morley@wales.nhs.uk
Trydar: @faithllanelli

# PWYLLGOR HPMA CYMRU



Samantha Graf

Aelod o Bwyllgor HPMA Cymru; Pennaeth Partneriaethau Pobl a Busnes, PCGC

Ymunodd Samantha â PCGC ym mis Ebrill 2020 ac ar hyn o bryd mae'n bennaeth ar y Tîm Partneriaethau Pobl a Busnes yn PCGC.

Cyn hyn, roedd gyrfa Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol Samantha yn rhychwantu bron i ddau ddegawd a hynny'n bennaf o fewn y Sector Tai. Mae hi hefyd yn ffodus o fod wedi gweithio'n agos gyda nifer o sefydliadau preifat a mentrau cymdeithasol lleol a sefydliadau hyrwyddwyr sy'n gweithio'n agos gyda'u cymunedau lleol.

Mae Samantha yn Aelod Siartredig o'r CIPD, yn Gyfryngwr wedi'i hyfforddi gan ACAS ac yn Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Y tu allan i'r gwaith, mae Samantha yn fam i ddwy o ferched (12 a 14) a chi boncyrs o'r enw Misty a phan nad yw hi'n brysur yn gweithio, mae hi wrth ei bodd yn treulio amser gyda ffrindiau a theulu ac mae'n mwynhau 'picio adref' yn rheolaidd i weld teulu yn Aberystwyth.

E-bost:
samantha.graf@wales.nhs.uk



Jane Tyler

Rheolwr Cyllid HPMA Cymru; Rheolwr Cyllid, PCGC

Mae Jane yn Gyfrifydd Siartredig Ardystiedig ac mae wedi gweithio yn GIG Cymru ers mis Awst 1989. Mae Jane wedi gweithio gyda HPMA Cymru ers nifer o flynyddoedd gan gynnig cyngor ac arweiniad ariannol arbenigol, ac mae wedi gweld hyn yn ddiddorol ac yn werth chweil.

Mae prif swydd Jane o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Gan weithio'n agos gyda Thrysorydd HPMA Cymru, rôl Jane yw rhoi cymorth ac arweiniad ariannol i'r trysorydd a'r pwyllgor.

Gan weithio gyda'i gilydd, mae'r trysorydd a Jane yn darparu adroddiadau a chyngor cyson ar incwm a gwariant, gan sicrhau bod llywodraethu ariannol ar waith. Maent wedi meithrin cysylltiadau ariannol da â HPMA Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y llywodraethu ariannol yn cyd-fynd â'r gwaith cenedlaethol.

E-bost:
jane.tyler@wales.nhs.uk



Amanda Jenkins

Aelod o Bwyllgor HPMA Cymru; Pennaeth y Gweithlu, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Mae Amanda wedi dal swyddi cyffredinol Adnoddau Dynol yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Rhondda Cynon Taf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Bws Caerdydd a Tai Tarian Cyf. ond yn ddiweddar gwnaeth y penderfyniad i ail-ymuno â'r GIG ar ôl cwblhau Gradd Meistr mewn Gwyddor Rheoli Adnoddau Dynol yn 2019.

Yn ogystal â'i gwaith gwirfoddol ar gyfer CIPD, mae Amanda wedi dal sawl swydd ar fwrdd cyfarwyddwyr Grŵp Amgylcheddol Evanston sy'n hyrwyddo ei hail angerdd sef natur a chynaliadwyedd; yn hoff iawn o ddalen, pan nad yw'n gweithio bydd Amanda allan yn cerdded neu'n darllen yn ei gardd.

E-bost:
amanda.jenkins6@wales.nhs.uk

HPMACymru

# PWYLLGOR HPMA CYMRU



Mitchell Jones

Swyddog Cyd-lywodraethu HPMA Cymru, Uwch Reolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a'r Gymraeg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mitch yw Swyddog Cyd-lywodraethu Cangen HPMA Cymru ac mae wedi gweithio yn y GIG ers ychydig dros 10 mlynedd gan ymgymryd ag amrywiaeth o rolau.

Wrth weithio yn Nhîm Gwasanaethau Cyfreithiol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, helpodd Mitch i sefydlu Calon, Rhwydwaith LGBT+ a Chynghreiriaid Staff y sefydliad, ac wedi hynny darganfu angerdd dros gydraddoldeb a chynhwysiant. Arweiniodd yr angerdd hwn ato'n dechrau gyrfa mewn Dysgu a Datblygu Sefydliadol lle bu'n helpu i sefydlu'r Academi Prentisiaid cyn gweithio i wella profiad staff yn y sefydliad fel Hwylusydd Datblygu Sefydliadol Arweiniol.

Mae Mitch yn Aelod Cyswllt o'r CIPD, yn ymarferydd MBTI ac yn fuan bydd yn hyfforddwr cymwys. Yn fuan iawn, bydd hefyd yn ymgymryd â gradd meistr mewn Rheoli Pobl Strategol. Mae Mitch yn falch o fod wedi ymgymryd â swydd Swyddog Cydlywodraethu ar Bwyllgor HPMA Cymru ac mae'n llawn cyffro am lunio dyfodol swyddogaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yng Nghymru.

E-bost:
mitchell.jones@wales.nhs.uk
Trydar: @mitchjones87



Sioned Eurig

Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol HPMA Cymru; Pennaeth y Tîm Cyflogaeth, Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC

Mae Sioned yn bennaeth ar y Tîm Cyflogaeth yn y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg. Cymhwysodd Sioned fel Cyfreithiwr yn 2010, enillodd ei gradd yn y gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth, cyn symud i Gaerdydd i ddilyn y Cwrs Ymarfer Cyfreithiol.

Mae Sioned yn arbenigo mewn Cyfraith Cyflogaeth ac mae ganddi ddiddordeb brwd mewn materion chwythu'r chwiban. Mae Sioned yn aelod hirsefydlog o Bwyllgor HPMA Cymru ar ôl ymuno nôl yn 2012. Mae Sioned yn mwynhau trefnu digwyddiadau hyfforddi amrywiol ar gyfer gweithlu AD GIG Cymru ac yn canfod ei fod yn gyfle da i gwrdd â chydweithwyr cyfarwydd a newydd.

Mae Sioned yn fentor fel rhan o gynllun mentora Coleg y Cymoedd a hefyd o fewn Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg. Mae Sioned yn mwynhau'r gwaith o ddydd i ddydd yn fawr, ac yn cydnabod bod bod yn rhan o gymuned ehangach HPMA Cymru yn hynod fuddiol a gwerthfawr, gan alluogi rhannu arfer gorau ar draws GIG Cymru.

E-bost:
sioned.eurig@wales.nhs.uk
Trydar: @sioned_e



Darren Davies

Swyddog Cyfathrebu HPMA Cymru; Rheolwr Tîm Cyfathrebu, PCGC

Darren yw Swyddog Cyfathrebu Cangen HPMA Cymru. Dyma ail gyfnod Darren gyda'r pwyllgor ac ôl iddo fod yn aelod o'r blaen rhwng 2012-2017.

Mae Darren yn uwch weithiwr cyfathrebu proffesiynol ac yn arweinydd sefydliadol sy'n rheoli tîm cyfathrebu corfforaethol PCGC.

Ar ôl darlithio a thiwtora yn y sectorau AB ac AU, ymgymerodd Darren â'r rôl fel arweinydd cyfathrebu o fewn rhaglen Arddangoswr Rheoli Cyflyrau Cronig (CCM) Llywodraeth Cymru yn 2009, cyn gweithio am gyfnod byr o fewn y swyddogaeth gorfforaethol yn yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH)- gan ymuno â PCGC yn 2012.

Yn ymarferydd cysylltiadau cyhoeddus achredig a Chydymaith Ardystiedig Adobe, bu Darren yn dal y swydd arweinydd cyfathrebu Unsain Cymru yn ffurfiol, yn aelod o'r Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus (CIPR), yn aelod o Bwyllgor CIPR Wales / Cymru, yn aelod o Comms Cymru a'r Sefydliad Cyfathrebu Mewnol.

E-bost:
darren.davies@wales.nhs.uk
Trydar: @darrenmdavies

# PWYLLGOR HPMA CYMRU



Sarah Patmore
Swyddog Partneriaeth  HPMA Cymru; Arweinydd Rhaglen, Gwelliant Cymru

Sarah yw Swyddog Partneriaethau HPMA Cymru, sy'n golygu ei bod yn chwilio am gyfleoedd i gydweithwyr Gweithlu a Datblygu Sefydliadol GIG Cymru rannu a dysgu gan sefydliadau eraill ar draws ein cenedl, a'r nod yw creu partneriaethau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr sy'n arwain at archwilio a datblygu syniadau ar draws sectorau a rhyng-sefydliadol.

Mae Sarah wedi treulio ei gyrfa 20 mlynedd yn y GIG yn gweithio i gefnogi pobl i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hyder fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial eu hunain ac, o ganlyniad, sicrhau rhagoriaeth i ddinasyddion Cymru.

Mae Sarah wedi ymrwymo i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o drawsnewid ein gwasanaethau ac mae hi wirioneddol yn gobeithio, mewn rhyw ffordd, y gall ei rôl Datblygu Sefydliadol alluogi/ ysbrydoli pobl i ymateb i'r heriau y mae'n rhaid i GIG Cymru eu bodloni. Ar wahân i'r agenda ddatblygu, mae gan Sarah ddiddordeb hefyd mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a lles yn y gweithle.

E-bost:
sarah.patmore@wales.nhs.uk
Trydar: @OddSarahOD



Kay Myatt
Swyddog Gwobrau HPMA Cymru;  Pennaeth Dysgu a Datblygu Sefydliadol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Yn wreiddiol o Stoke on Trent yng Nghanolbarth Lloegr, mae Kay bellach yn byw yng Ngorllewin Cymru gyda'i dau Labrador du. Mae Kay wrth ei bodd yn rhoi cynnig ar bethau newydd ac ar hyn o bryd mae'n dysgu dawnsio salsa, yn hyfforddi i redeg marathon ultra ac yn dysgu i siarad Cymraeg!

Fel un o gyn-raddedigion Hyfforddai Adnoddau Dynol GIG Lloegr, mae Kay wedi cael cyfleoedd gwych i weithio mewn  ystod eang o sefydliadau'r GIG yng Nghymru a Lloegr, mewn amrywiaeth o rolau Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Mae gyrfa amrywiol Kay hyd yma wedi rhoi profiad iddi ym mhopeth o Adnoddau Dynol gweithredol, E-amserlennu, Datblygu Gyrfaoedd, Recriwtio, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Datblygu Sefydliadol a Dysgu a Datblygu. Fel Swyddog Gwobrau i Bwyllgor HPMA Cymru, mae Kay yn gweithio  gyda'r pwyllgor i ddatblygu strategaethau i gynyddu nifer y ceisiadau yng Nghymru i Wobrau Cenedlaethol HPMA, datblygu a chydlynu Gwobrau HPMA Cymru a gweithio i rannu arfer gorau a dysgu o'r ceisiadau a'r enillwyr gwobrau ledled Cymru a thu hwnt.

E-bost:
kay.myatt@wales.nhs.uk
Trydar: @kaylouisemyatt



Claire Whiles
Trysorydd HPMA Cymru; Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae Claire wedi gweithio ym my datblygu sefydliadol ers 2005, gan ddechrau ar ei thaith i'r byd Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydl iadol o fewn amgylchedd awdurdod lleol. Cyn hynny roedd Claire wedi bod yn athrawes, yn swyddog codi arian, yn gynghorydd gwasanaeth cwsmeriaid ac yn swyddog marchnata.

Symudodd Claire i'r GIG yn 2016 yn dilyn cyfnod o ddarparu cymwysterau HRM CIPD  am flwyddyn yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro (gyda chyfradd basio o 100%!) ac mae'n bleser ac yn fraint gweithio o fewn y GIG yng Nghymru.

Ymunodd Claire ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre ym mis Awst 2019 ac mae'n llawn cyffro o fod yn rhan o Bwyllgor HPMA Cymru. Mae Claire yn fam ymroddedig i 2 fachgen hyfryd, yn llysfam i 3 ddynes ifanc hyfryd, ac yn llys-nain i 7 o wyrion ac wyresau anhygoel ac yn dibynnu ar deulu, ffrindiau ac ymarfer corff i'w chadw'n ffit ac yn iach.

E-bost:
claire.whiles@wales.nhs.uk
Trydar: @claire_whiles

HPMACymru

# PWYLLGOR HPMA CYMRU



Amanda Williams
Swyddog Ymgysylltu Aelodaeth HPMA Cymru; Cynorthwyydd Gwasanaethau Pobl Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Fy nod o fewn rôl y Swyddog Ymgysylltu Aelodaeth yw cyflwyno mwy o aelodau a thynnu sylw holl Ymddiriedolaethau'r GIG a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol at fanteision gweithio gyda'r HPMA ac ochr yn ochr ag ef. Cael cyfle i fynychu digwyddiadau, i feddwl am ysgogi a datblygu ein gweithwyr proffesiynol rheoli pobl ymhellach, drwy gyfleoedd partneriaeth a rhwydweithio.

Rwyf wedi gweithio o fewn y Tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yng Ngwasanaeth Ambiwlans Cymru ers dros 28 mlynedd. Yn ystod fy amser rwyf wedi cyflawni rolau amrywiol o fewn y swyddogaeth Adnoddau Dynol gan gynnwys arweinydd ESR a Chynghorydd Adnoddau Dynol. Fy nghyflawniad proffesiynol yn dilyn graddio CIPD oedd cyflawni statws Siartredig y CIPD. Mae fy rôl bresennol o fewn y Tîm Gwasanaethau Pobl. Byddaf yn symud yn fuan i'r Tîm Datblygu Sefydliadol am secondiad chwe mis fel Cydlynydd Cymorth Prosiect. Rwy'n llawn cyffro am y newid rôl gan fy mod yn credu y bydd hyn yn rhoi cyfle pellach i mi ragori o fewn tîm yr wyf eisoes yn ei garu.

E-bost:
Angela.Williams1@wales.nhs.uk



Bethan Johnson
Aelod o Bwyllgor HPMA Cymru; Pennaeth Datblygu Arweinyddiaeth a Newid, Academi Cymru, Llywodraeth Cymru

Mae gan Bethan dros 25 mlynedd o brofiad yn y Sector Cyhoeddus o fewn y GIG yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Ei ffocws yw datblygu mentrau sy'n meithrin arweinyddiaeth a chapasiti a gallu sefydliadol ar draws y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Mae Bethan wedi dylunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni dysgu creadigol ac arloesol i wella arfer arweinyddiaeth ac mae ganddi brofiad helaeth o hyfforddi, mentora, dysgu gweithredol a hwyluso pwrpasol ac wrth ddefnyddio offer Seicometrig fel ymarferydd achrededig.

Mae Bethan yn teimlo'n freintiedig i fod yn rhan o dîm Academi Cymru sy'n cyflwyno digwyddiadau a rhaglenni o'r radd flaenaf. Annog y gorau o bobl eraill, modelu rôl arweinyddiaeth a chreu mannau sy'n dweud bod pobl a'u cyfraniadau yn bwysig.

Mae cysylltiad Bethan â Changen Cymru HPMA wedi ei gweld yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o drefnu gweithgareddau cangen, cynadleddau a digwyddiadau.

E-bost:
bethan.Johnson@gov.wales
Trydar: @Bethan_Johnson



Ruth Evans
Aelod o Bwyllgor HPMA Cymru; Uwch Reolwr Datblygu Sefydliadol; Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Shwmae! Rwy'n gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel Uwch Reolwr Datblygu Sefydliadol, sy'n arwain ar hyn o bryd ar drawsnewid agenda'r Iaith Gymraeg, rhaglen Trawsnewid yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol a gweithio Ystwyth.

Rwy'n rheolwr prosiect/datblygu sefydliadol profiadol sy'n arbenigo mewn iechyd a gofal cymdeithasol sydd â chefndir yn y GIG, llywodraeth leol a'r trydydd sector. Mae gennyf weledigaeth strategol gref, ac yn mwynhau grymuso eraill i arwain a rheoli. Rwy'n hyfforddwr profiadol yn ogystal â bod â phrofiad helaeth o gyflawni newid busnes trawsnewid drwy fethodolegau rheoli prosiectau a rhaglenni.

Yn bersonol, rwy'n caru'r awyr agored yn enwedig i fyny'r mynyddoedd ym mhob tywydd ac rwyf wedi mentro i fyd beicio ar y ffordd dros y flwyddyn ddiwethaf; dydw i dal ddim yn hoffi'r bryniau ac mae gen i ddigon o gleisiau i'w dangos!

HPMACymru

# PWYLLGOR HPMA CYMRU



Ceri Harris
Aelod o Bwyllgor HPMA; Arbenigwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant; Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Ymunais â'r Pwyllgor HPMA yn 2022, gyda'r nod o gefnogi'r gwaith y maent yn ei wneud o amgylch EDI. Ar hyn o bryd, fi yw Cadeirydd grŵp Arwain Cydraddoldeb GIG Cymru Gyfan, sy'n cynnwys Rheolwyr Cydraddoldeb, arweinwyr a swyddogion cynhwysiant ar draws y GIG yng Nghymru. Gyda'r nod o rannu arferion EDI gorau a gwella profiadau ein staff, cleifion a'r gymuned ehangach.

Ar ôl gweithio ym maes EDI yn broffesiynol ers dros 20 mlynedd, mae cydraddoldeb bob amser wedi bod yn rhan greiddiol o'm hunaniaeth ac rwyf bob amser wedi bod yn ymwneud â phrosiectau EDI a gweithrediaeth.

Fy rôl bresennol yw Rheolwr Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ac rwyf wedi bod yn y swydd ers mis Medi 2021. Mae hynny'n ychwanegol i fy 16 mlynedd flaenorol yn y GIG.

E-bost:
ABB.EDI@wales.nhs.uk
Trydar: @EqualityABUHB



Daniela Mahapatra
Aelod Pwyllgor HPMA Cymru; Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC

Mae Daniela yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg. Cymhwysodd Daniela fel Cyfreithiwr yn 2005, enillodd ei gradd LLB y Gyfraith ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe, cyn symud i Gaerdydd i ddilyn y Cwrs Arfer Cyfreithiol. Mae Daniela yn a rbenigo mewn Cyfraith Cyflogaeth. Mae Daniela yn aelod o Bwyllgor HPMA Cymru, gan drefnu digwyddiadau hyfforddi amrywiol ar gyfer gweithlu AD GIG Cymru.

Ym mis Mai 2016, etholwyd Daniela yn gynrychiolydd Cymru ar gyfer y Gymdeithas Cyfreithwyr Cyflogaeth. Fel rhan o'r rôl hon, cynorthwyodd Daniela i gyflwyno'r cynllun cymorth i ymgyfreithwyr yn y Tribiwnlys Cyflogaeth (ELIPS) yn Nhribiwnlys Cyflogaeth Cymru, sy'n darparu cymorth am ddim i gyfreithwyr heb eu cyflwyno (hawlwyr ac ymatebwyr) yn y Tribiwnlys Cyflogaeth.

Mae Daniela wedi dysgu'r modiwl Cyfraith Cyflogaeth ar y cwrs HRM ym Mhrifysgol De Cymru.
Mae Daniela hefyd yn fentor fel rhan o gynllun mentora Coleg y Cymoedd. Mae Daniela yn teimlo'n freintiedig i weithio fel rhan o'r GIG yng Nghymru.

E-bost:
daniela.mahapatra@wales.nhs.uk
Trydar: @DaniMahapatra



Amanda Glanville
Aelod o Bwyllgor HPMA Cymru; Pennaeth Addysg a Datblygu; Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Rwy'n angerddol am ddatblygu ein gweithlu presennol ac yn y dyfodol, gan gefnogi unigolion drwy gyfleoedd teg. Mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn datblygu'r proffesiwn Adnoddau Dynol a chodi cwmpas ehangach rolau o fewn y proffesiwn gan gynnwys Dysgu a Datblygu ac rwy'n gobeithio y bydd bod yn aelod o'r Pwyllgor HPMA yn cefnogi hyn.

Fy angerdd yw creu cyfleoedd cydweithredol i'n cymunedau, gan gefnogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion iechyd a chyflogaeth ein poblogaeth yn y dyfodol.

Fel rheolwr rhaglen profiadol, gydag arddull arweinyddiaeth ystwyth, rwy'n meithrin cydweithio, arloesedd a c hreadigrwydd o fewn fy nhimau gan arwain at ddulliau deinamig yn y ffordd rydym yn gweithio. Mae gennyf gefndir helaeth mewn dysgu a datblygu, dylunio rhaglenni, gwasanaeth cwsmeriaid, sgiliau cyflogadwyedd, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu ag ysgolion. Ar ôl gweithio mewn sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, gallaf gefnogi datblygiad y gweithlu amrywiol yr ydym yn ceisio ei dyfu.

E-bost:
amanda.glanville@wales.nhs.uk

# PWYLLGOR HPMA CYMRU



Richard Tompkins
Aelod o Bwyllgor HPMA Cymru; Cyfarwyddwr, Cyflogwyr GIG Cymru

Mae'n Gymrawd o'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ac mae wedi treulio dros 30 mlynedd yn gweithio ym maes rheoli personél / adnoddau dynol ac mae ganddo hefyd MA mewn Rheoli Adnoddau Dynol Strategol. Ymunodd Richard â'r GIG yn 1985 a gweithiodd yng Ngogledd Orllewin Lloegr cyn symud i Ogledd Cymru yn 1990.

Ymgymerodd â rôl Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 2009 lle'r oedd ei bortffolio'n cynnwys moderneiddio'r gweithlu, gwybodaeth a llywodraethu cyn ymuno â Chyflogwyr GIG Cymru fel Cyfarwyddwr ym mis Mehefin 2013.

E-bost:
richard.tompkins@wales.nhs.uk
Trydar: @richardtompkin5



Millie Tottle
Gweinyddwr Cangen HPMA Cymru; Prentis Gweinyddwr Busnes Adnoddau Dynol, Pobl a Datblygu Sefydliadol, PCGC

Dechreuodd Millie ar ei thaith brentisiaeth ym mis Ebrill 2021 ar ôl bod â diddordeb mewn Adnoddau Dynol erioed.
Mae Millie yn ymgymryd â rôl weinyddol ar bwyllgor HPMA Cymru, ac yn gyfrifol am y gweithgareddau clerigol sy'n sail i waith y Gangen. Mae'n credu bod ei rôl yn caniatáu iddi brofi gwaith HPMA Cymru drwy lens ehangach drwy gefnogi gyda llawer o wahanol agweddau ar y pwyllgor a'r gwaith y mae'r aelodau'n ei wneud.

Yn ei hamser sbâr, mae Millie wrth ei bodd yn mynd i'r gampfa a mynd â'i dau gi am dro ym Mannau Brycheiniog.

E-bost:
millie.tottle@wales.nhs.uk

HPMACymru

# SUT I GYMRYD RHAN GYDA HPMA CYMRU

Mae ein Swyddogion Cyswllt HPMA Cymru yn rhan allweddol o bwyllgor HPMA Cymru ac yn g weithredu fel cyswllt uniongyrchol i'w sefydliadau lleol, gan helpu i rannu gwybodaeth a drafodir yn y pwyllgor yn well a sicrhau cyfranogiad ac ymgysylltiad yr holl staff ar wahanol lefelau i waith HPMA Cymru.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am HPMA Cymru neu i gymryd rhan, gweler manylion cyswllt y *Swyddogion Cyswllt ar gyfer pob un o'n haelod sefydliadau.

*Yn absenoldeb Swyddog Cyswllt ar gyfer eich sefydliad, cysylltwch â'n Gweinyddwr HPMA Cymru (Millie Tottle, neu fel arall, cynrychiolydd Aelod Pwyllgor o'ch Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth.



Wilma Tepatepa
Swyddog Cyswllt (Iechyd a Gofal Digidol Cymru); Swyddog Gweithlu

Rwy'n Swyddog Gweithlu ym maes Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac mae fy rôl yn cynnwys Dadansoddi gwybodaeth am y Gweithlu, adnabod tueddiadau neu faterion a sicrhau bod y rhain yn cael eu trafod yn briodol gyda'r Partner Busnes Adnoddau Dynol perthnasol.

Rwyf hefyd yn ymwneud â chefnogi gweithgarwch hyfforddi sy'n gysylltiedig ag Adnoddau Dynol, gan gynnwys eu datblygu, eu cyflawni a darparu cymorth i dimau ar draws y cyfarwyddiaethau mewn gweithgarwch datblygu tîm, a all gynnwys, er enghraifft, hwyluso trafodaeth datblygu tîm neu adnabod anghenion datblygu tîm.

Mae fy rôl hefyd yn cynnwys hyrwyddo, gyrru a gwreiddio agenda'r gweithlu o fewn cyfarwyddiaethau a chwarae rhan annatod yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu arfer gorau o fewn y Sefydliad.

E-bost:
wilma.tepatepa@wales.nhs.uk



Abi Wilcox
Swyddog Cyswllt (Iechyd Cyhoeddus Cymru); Uwch Ymarferydd Arweinyddiaeth a Datblygu Sefydliadol

Ym mis Ionawr 2022, deuthum yn Swyddog Cyswllt HPMA Iechyd Cyhoeddus Cymru ac roeddwn yn falch iawn o fod yn rhan o bwyllgor mor angerddol a chyfeillgar. Dechreuais weithio i Iechyd Cyhoeddus Cymru/y GIG ym mis Ionawr 2018 fel Swyddog Adnoddau Dynol yn ein tîm Gweithrediadau Adnoddau Dynol. Cyn hyn, bûm yn gweithio yn y sector preifat, yn bennaf mewn rolau Adnoddau Dynol a Recriwtio.

Yn ystod fy nghyfnod yn nhîm Gweithrediadau Adnoddau Dynol Iechyd Cyhoeddus Cymru, rhoddais gymorth a hyfforddiant i reolwyr llinell, arweiniais ar ddatblygu polisi, darparu hyfforddiant a rheoli llwyth achosion Adnoddau Dynol eang.

Ym mis Mawrth 2022, dechreuais rôl newydd fel Uwch Ymarferydd Arweinyddiaeth a Datblygu Sefydliadol yn nhîm Datblygu ac Ymgysylltu Sefydliadol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

E-bost:
abigail.wilcox@wales.nhs.uk

# SWYDDOGION CYSWLLT HPMA CYMRU



Emily Mayers
Swyddog Cyswllt (Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre); Cynghorydd Gweithlu

Fi yw Swyddog Cyswllt HPMA ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae'r rôl hon yn cynnwys cyfleu negeseuon a gwybodaeth o gyfarfodydd HPMA i aelodau eraill o dîm y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Yn fy rôl fel Cynghorydd Gweithlu ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, rwy'n gyfrifol am ddarparu cyngor polisi a phrosesu i reolwyr a gweithwyr ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Mae fy mhrofiad blaenorol o'r GIG yn cynnwys Gweithio fel Ymgynghorydd AD ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ac fel Goruchwyliwr Labordy ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Cyn ymuno â'r GIG, gweithiais fel Rheolwr Busnes yn y sector preifat. Ar hyn o bryd rwy'n astudio Diploma Ôl-raddedig mewn Rheoli Pobl Strategol.

E-bost:
emily.mayers2@wales.nhs.uk



Ruth Taylor
Swyddog Cyswllt (Addysg a Gwella Iechyd Cymru - AaGIC); Cynghorydd Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Cefais fy mhenodi'n ddiweddar fel Swyddog Cyswllt HPMA newydd ar gyfer AaGIC. Rwyf wedi gweithio yn GIG Cymru ers dros 20 mlynedd, yn gyntaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mewn rolau gweinyddol amrywiol, gan gynnwys Ysgrifennydd Meddygol yn Haematoleg, Rheolwr Data ar gyfer Oncoleg Bediatrig a PA i'r Bwrdd Clinigol Deintyddol.

Ymunais ag AaGIC yn 2018 fel Cynorthwy-ydd Gweithredol i'r Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a'r Cyfarwyddwr Meddygol cyn cael fy mhenodi fel Cynghorydd Gyrfaoedd ac Ehangu Mynediad yn 2020.

Ar ôl cwblhau cymhwyster lefel 5 CIPD yn ddiweddar, rwyf ar fin dechrau ar gyfle secondiad o fewn AaGIC fel cynghorydd Gweithlu a Datblygu Sefydliadol gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol.

E-bost:
ruth.taylor@wales.nhs.uk



Sophie Jones
Swyddog Cyswllt (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys); Rheolwr Swyddfa Datblygu'r Gweithlu a Sefydliadol

Roeddwn i'n Weithiwr Allweddol i Blant 0-18 mis oed mewn lleoliad Meithrin ar ôl gadael y coleg yn 2010 tan 2018 pan es i i letygarwch.

Derbynnydd oedd fy rôl yno ond dros y 2 flynedd roeddwn i'n gweithio yno fe wnes i gyfrannu at rannau eraill o'r gwesty fel cadw tŷ, gweini ac ati.

Ym mis Medi 2020 ymunais â PTHB fel gweinyddwr Adnoddau Dynol rhan-amser, ac ym mis Tachwedd 2020 dechreuais fy secondiad fel rheolwr Swyddfa weinyddol Adnoddau Dynol llawn amser ac rwyf wedi bod yn y rôl hon ers hynny.

HPMACymru

# SWYDDOGION CYSWLLT HPMA CYMRU



Millie Thomas
Swyddog Cyswllt (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda); Swyddog Cyfathrebu (Datblygu Sefydliadol)

Cwblheais radd mewn Rheoli Adnoddau Dynol yn 2018 gydag anrhydedd dosbarth cyntaf a dechreuais weithio fel cynorthwyydd Adnoddau Dynol mewn cwmni Gofal lleol cyn dychwelyd i'm Bwrdd Iechyd lleol.

Cefais fy hun yn Recriwtio Meddygol ac yn fwyaf diweddar rwyf wedi dod yn Swyddog Cyfathrebu o fewn yr Adran Datblygu Sefydliadol.

Rwyf wedi dechrau'n ddiweddar fel Swyddog Cyswllt o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac yn gweithredu fel cyswllt rhwng HPMA a'm Bwrdd Iechyd. Rwy'n cael yr opsiwn i ledaenu newyddion a diweddariadau i'm cydweithwyr pan fo angen.

E-bost:
millie.thomas@wales.nhs.uk



Sian Thomas
Swyddog Cyswllt (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro); Cynghorydd Adnoddau Dynol

Ymunais â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel Cynghorydd Adnoddau Dynol dan Hyfforddiant ym mis Ionawr 2020, ar ôl gweithio ym Mhrif Swyddfa'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol o fewn gweinyddiaeth Adnoddau Dynol. Rwyf bob amser wedi bod â diddordeb mewn gweithio ym maes Adnoddau Dynol, ac ar ôl gweithio mewn e-fasnach ar gyfer sefydliadau manwerthu, symudais i ymuno â'r tîm Adnoddau Dynol yn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Mae fy rôl gynghori bresennol yn cynnwys cefnogi rheolwyr llinell gydag achosion o salwch a rhoi cyngor ac arweiniad ar bolisïau a phrosesau Adnoddau Dynol yn ogystal â darparu hyfforddiant ochr yn ochr â Chynrychiolwyr Undebau i Reolwyr Llinell.

Ar hyn o bryd rwy'n ymgymryd â'm cymhwyster CIPD Lefel 5 fel rhan o'm rôl, a fydd yn fy nghefnogi wrth ddatblygu a chryfhau fy nealltwriaeth o'r swyddogaeth Adnoddau Dynol.

E-bost:
sian.thomas15445f@wales.nhs.uk



Bronwen Biddle
Swyddog Cyswllt (Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru); Arweinydd Lles ac Ymgysylltu

Cyn ymuno â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, cefais fy nghyflogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gefnogi amrywiaeth o dimau (o safbwynt Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol) gan gynnwys gofal sylfaenol, iechyd meddwl, fferyllfeydd, therapïau ac iechyd carchardai. Ymunais â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn 2019 ac yn ddiweddar cefais fy mhenodi i rôl Rheolwr Datblygu Sefydliadol gan arwain ar ymgysylltu a lles.
Mae hyrwyddo lles a chyfathrebu'r cymorth sydd ar gael sy'n hygyrch i bawb, yn cymryd rhan ganolog yn y gwaith a wnaf.

Rwy'n falch iawn o fod yn rhan o'n cangen HPMA fel Swyddog Cyswllt ar ôl mynychu llawer o'u digwyddiadau mewn blynyddoedd blaenorol. Rwy'n byw yng Ngogledd Cymru hyfryd a phan nad wyf yn y gwaith, fe welwch fi i fyny mynydd, beth bynnag fo'r tywydd, gyda'm labrador du sy'n aml yn cambihafio!
E-bost:
bronwen.biddle2@wales.nhs.uk

HPMACymru

# SWYDDOGION CYSWLLT HPMA CYMRU

Hannah Miles
Swyddog Cyswllt (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg);
Ymgynghorydd Adnoddau Dynol

E-bost:
hannah.miles@wales.nhs.uk

Natalie Mills
Swyddog Cyswllt (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe);
Hwylusydd Datblygu Sefydliadol Arweiniol

E-bost:
natalie.mills2@wales.nhs.uk

Maria Snow
Swyddog Cyswllt (PCGC);
Partner Busnes Cydymaith Pobl a Datblygu Sefydliadol

E-bost:
maria.snow@wales.nhs.uk

Vikki Davies
Swyddog Cyswllt (Ymddiriedolaeth GIG Felindre);
Rheolwr Prosiect

E-bost:
victoria.davies15@wales.nhs.uk

HPMACymru
















GIG
NHS
HPMA W




GIG
NHS
General


Healthcare People Management Association
Welcome



HPMACymru

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

Cynlluniwyd gan Dîm Cyfathrebu PCGC